

Polisi ar reoli coed a gwrychoedd sy'n eiddo i Gyngor Sir Fynwy



monmouthshire
sir fynwy

1 Cyflwyniad

2 Egwyddorion cyffredinol

3 Asesu diogelwch coed

4 Ceisiadau am asesiadau diogelwch coed

5 Coed sy'n gofyn am ystyriaeth arbennig

5 Coed sy'n effeithio ar hawliau tramwy cyhoeddus

6 Gwrychoedd sy'n eiddo i'r Cyngor

6 Gweithdrefn gwyno

7 Gwybodaeth gyswllt

8 Atodiad 1: Cwestiynau cyffredin

11 Atodiad 2: Meini prawf ar gyfer asesiadau diogelwch coed a ariennir yn breifat

Teitl	Polisi ar reoli coed a gwrychoedd sy'n eiddo i Gyngor Sir Fynwy
Pwrpas	Polisi'r Cyngor Sir
Perchennog	Mark Cleaver
Cymeradwywyd gan	Y Cabinet
Dyddiad	11 ^{eg} Ebrill 2018
Rhif Fersiwn	Terfynol I 2
Statws	Cymeradwywyd
Dyddiad adolygu	Ebrill 2019
Ymgynghori	Pwyllgor Dethol Cymunedau Cadarn
Dyddiad Ymgynghori	16 ^{eg} Tachwedd 2017

Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn amlinellu sut mae Cyngor Sir Fynwy'n ymateb i adroddiadau, ymholiadau a chwynion gan y cyhoedd ynglŷn â choed a gwrychoedd *sy'n eiddo i'r cyngor*, a'r rhesymeg y tu ôl i'r broses o wneud penderfyniadau sy'n gorfod cydbwysio anghenion yr unigolyn, y gymuned ehangach a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae Cyngor Sir Fynwy'n gwerthfawrogi'r gorchudd coed ar draws yr ardal ac yn cydnabod y potensial enfawr ar gyfer manteision dynol ac amgylcheddol sy'n gysylltiedig â phoblogaeth goed iach a chynaliadwy. Cydnabyddir hefyd y gwerth y mae coed yn ei gyfrannu ar lefel genedlaethol ac fe'i cefnogir trwy Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Fodd bynnag, mae nifer y coed a chyfansoddiad canopi ar draws y sir, Cymru a'r DU yn fwy cyffredinol wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae tystiolaeth gan Adnoddau Naturiol Cymru yn dangos bod gan Sir Fynwy ganopi coed trefol is na'r cyfartaledd a'r dirywiad yn y blynyddoedd diweddar. Ar ben hyn, mae plannu coed ar lefel genedlaethol cyn ised ag y bu erioed. O fewn y cyd-destun hwn mae'n ddull o reoli coed yn cael ei osod.

Wrth ddatblygu'r canllawiau hyn, mae'r cyngor yn cydnabod deddfwriaeth allweddol, polisi cenedlaethol a materion sy'n ymwneud ag iechyd coed a choedwigoedd y DU gyfan.

Egwyddorion Cyffredinol

Mae Cyngor Sir Fynwy'n cyflawni gwaith rheoli hanfodol yn unig i stoc goed yr awdurdod lleol. Mae'r cyngor yn ystyried y rhesymau canlynol wrth reoli coed yn hanfodol megis:

- Rheoli risg i bobl ac eiddo
- Lle bo coed yn cael eu gweld yn niweidio isadeiledd adeiledig
- Lle mae coed yn lleihau mynediad diogel i mewn ac allan o hawl tramwy cyhoeddus

Mae coed wedi esblygu i ymdopi ag ystod o amodau hinsawdd a thywydd. Fel organeddau hunan-optimeiddio, yn gyffredinol, byddant yn aros yn iach, yn sefydlog ac yn ddiogel lle mae eu hamgylchedd yn parhau'n gyson. Fodd bynnag, fel organebau byw sy'n tyfu, cydnabyddir y gall coed ddatblygu diffygion neu broblemau iechyd a all arwain at fethiant sy'n peri risg i bobl ac eiddo sy'n agos atynt. Mae Cyngor Sir Fynwy'n cydnabod y perygl posibl hwn a'u cyfrifoldeb nhw i asesu coed er diogelwch, a gallant wneud gwaith cynnal a chadw o bryd i'w gilydd i reoli risg. Lle bo gwaith rheoli coed yn angenrheidiol, cwblheir hyn yn y modd mwyaf cydymdeimladol i gynnal iechyd y goeden a'i chyfraniad fel ased naturiol, gan sicrhau nad yw coed unigol yn peri risg gorfforol i bobl nac eiddo.

Mae'n bwysig datgan bod unrhyw waith tocio yn rhoi cyfle i bathogenau fynd i mewn trwy gyfrwng clwyfau. Gall tocio hefyd hybu ailgyfiant egnïol gan arwain at yr angen am reolaeth gylchol yn y dyfodol ar gost sylweddol a pharhaus. Felly, eir ati i docio yn unig pan mae hynny'n angenrheidiol am y rheswm a roddir uchod.

A fyddech gystal â chyfeirio at Atodiad 1 am gwestiynau a ofynnir yn aml.

Asesu diogelwch coed

Er mwyn darparu cyd-destun i'r risg a geir gan goed,:

'achosir un farwolaeth mewn 10 miliwn o bobl y flwyddyn yn y DU o ganlyniad i goed a changhennau sy'n syrthio neu wedi syrthio. . O ran anafiadau nad ydynt yn angheuol yn y DU, mae nifer y damweiniau ac achosion brys (Damweiniau ac Achosion Brys) y gellir eu priodoli i daro gan goed (tua 55 y flwyddyn) yn hynod o fach o'i gymharu â'r achosion damweiniau brys yn gysylltiedig â hamdden. Mae peli troed (262,000), siglenni plant (10,900) a hyd yn oed biniau olwyn (2,200) yn gysylltiedig â llawer mwy o ddigwyddiadau.' ¹

Er mwyn sicrhau bod y lefel hon o risg yn parhau'n isel a bod Cyngor Sir Fynwy'n cyflawni ei ddyletswyddau fel perchennog tir ac awdurdod lleol cyfrifol, mae'r cyngor sir yn cynnal archwiliadau diogelwch coed. Y dull asesu diogelwch coed sy'n cael ei ddefnyddio gan y cyngor sir yw'r Asesiad Risg Coed Dynodedig (QTRA) a gydnabyddir yn genedlaethol. Gellir dod o hyd i wybodaeth am QTRA yn [<https://www.qtra.co.uk/>](https://www.qtra.co.uk/).

Lle bo'r adnoddau'n gyfyngedig, gallai'r cyngor sir hefyd gyflogi contractwyr coedwigaeth arbenigol i gynnal archwiliadau diogelwch coed.

Mae staff Cyngor Sir Fynwy yn gwneud gwaith ar raddfa fechan ar goed. Os oes angen gwaith mwy neu fwy arbenigol, gellid cyflogi contractwyr i gyflawni'r gwaith ar ran y cyngor. Lle defnyddir contractwyr ar gyfer asesiadau diogelwch neu waith ar goed, mae'n rhaid iddynt fodloni polisiau caffael y cyngor mewn perthynas â chymwysterau a chymwyseddau, systemau iechyd a diogelwch ac yswiriant.

Mae'r cyngor sir yn derbyn ymholiadau, adroddiadau a chwynion am goed mewn perchnogaeth gyhoeddus a phreifat. Os derbynnir adroddiad yn nodi coeden beryglus, bydd y cyngor sir yn gyntaf yn cadarnhau ar dir pwy mae'r goeden yn tyfu. Ni all Cyngor Sir Fynwy gadarnhau dim heblaw a yw'r cyngor yn berchen y tir neu a oes Gorchymyn Cadw Coed ar goeden mewn perchnogaeth breifat; y tu hwnt i hyn, ni all y cyngor sir gynghori ar goed mewn perchnogaeth breifat. Pan gadarnheir mai'r cyngor sir sydd berchen y goeden, bydd yn trefnu arolwg ac yn dilyn argymhellion yr arolygydd ar gyfer gwaith rheoli.

Pan nodir bod coeden sy'n eiddo preifat yn peri perygl i ddefnyddwyr cyhoeddus priffyrdd a manau agored neu ei bod yn rhwystro mynediad i hawl tramwy neu briffordd gyhoeddus, gall y cyngor sir roi rhybudd i'r tiffeddiannwr wneud gwaith ar y goeden i wneud y goeden yn ddiogel neu sicrhau bod y mynediad yn glir.

Ceisiadau am asesiadau diogelwch coed

Pan fo preswlydd yn anhapus gyda'r argymhellion o'r arolwg QTRA ac yn gofyn am ail asesiad coed, bydd hyn yn cael ei gynnig ar ffi, a fydd yn cael ei ad-dalu os nodir problem. Lle cytunir ar hyn, bydd aseswr arall yn cynnal yr ail QTRA.

Seilir prisiau am asesiadau diogelwch coed ar faint y gwaith sydd ei angen a chodir lleiafswm tâl o £100.

Lle mae preswlydd yn gofyn am asesiad coedwigaeth mwy manwl ar y goeden, y tu hwnt i'r hyn a argymhellwyd gan y dull QTRA, gall y cyngor sir drefnu hyn trwy gontractwr allanol annibynnol am ffi (i'w chytuno ymlaen llaw) yn seiliedig ar gost y cyflenwr a ffi weinyddol resymol.

Lle mae preswlydd yn dymuno cael contractwr preifat i asesu coeden, ni fydd Cyngor Sir Fynwy yn ystyried yr argymhellion oni chyflwynir hwy'n ysgrifenedig a'r asesiad yn bodloni'r meini prawf a nodir yn Atodiad 2.

Pe bai asesiad coed a ariennir yn breifat yn nodi problem ddiogelwch y mae angen mynd i'r afael â hi, bydd y cyngor sir yn ystyried ad-dalu cost yr asesiad yn unig lle mae'r asesiad yn bodloni'r meini prawf a amlinellwyd yn Atodiad 2 a lle mae'r adran berthnasol sy'n gyfrifol wedi cytuno ymlaen llaw ar gost yr asesiad a ariannwyd yn breifat.

Coed sydd angen sylw arbennig

Yn ychwanegol at y gwerth eang y mae'r boblogaeth goed yn ei ddarparu a'i chyfraniad at ffabrig cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Sir Fynwy, gallai coed penodol gael eu clustnodi ar gyfer sylw arbennig. Mae llawer o goed y tu allan i berchnogaeth y cyngor sir eisoes yn cael eu cydnabod ar gyfer statws arbennig trwy ddefnyddio Gorchmynion Cadw Coed (GCCion). Fodd bynnag, nid yw GCCion yn berthnasol i goed sy'n eiddo i'r awdurdod lleol. Felly, er mwyn sicrhau bod coed o'r fath yn cael yr ystyriaeth ddyledus, mae'r polisi hwn yn amlinellu isod sut mae'r cyngor sir yn asesu ei stoc ei hun o goed ar gyfer ystyriaeth arbennig.

Mae llawer o enwau a roddir i goed sy'n eu nodi fel rhai sydd â gwerth arbennig; mae'r rhain yn cynnwys Coed Agored, Coed Nodedig, Coed Hynafol a Choed Hynod. Yn ogystal, mae coed a choetiroedd wedi'u plannu i goffáu digwyddiadau arbennig neu fel rhan o dirweddau hanesyddol ac, yn fwy diweddar, ar gyfer adfer a gwella tirwedd. Yn aml ni ellir ailosod gwerth y coed hyn oherwydd, er enghraifft, eu cysylltiadau hanesyddol neu ddiwylliannol neu oed y coed a'r fflora a'r ffawna cysylltiedig. Mae hyn yn arbennig o berthnasol lle mae coed yn darparu cartrefi ar gyfer rhywogaethau a warchodir megis ystlumod. Lle mae hyn yn wir, gallai fod deddfau ychwanegol yn berthnasol.

Mewn asesiadau coed rhagweithiol yn y dyfodol, bydd Cyngor Sir Fynwy'n nodi coed y dylid eu cofnodi fel rhai arbennig. Caiff y coed hyn eu mapio a chedwir y manylion yn nodi eu nodweddion arbennig i sicrhau y derbyniant y warchodaeth briodol. Cyn bwysiced, nid yw hyn yn golygu y rhoddir i faterion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch llai o flaenoriaeth, yn hytrach, rhoddir ystyriaeth i fwy o opsiynau rheoli i sicrhau y gall y goeden/coed aros yn ei lle/eu lle am y cyfnod hiraf posibl. Er enghraifft, gallai fod yn briodol i glymu gafael neu goeden arbennig ddynodedig lle fel arfer, byddai ymagwedd o gwympo'r goeden ac ailblannu fel arfer yn torri ac ailblannu.

Gosodir y meini prawf ar gyfer coed arbennig dynodedig erbyn Awst 2018 ac fe'u gweithredir fel rhan o arolygon coed yn y dyfodol.

Coed sy'n effeithio ar hawliau tramwy cyhoeddus

Nid yw Cyngor Sir Fynwy'n berchen ar goed sy'n agos i hawliau tramwy cyhoeddus (HTC). Fodd bynnag, os yw coeden neu gangen yn syrthio ar draws HTC gan rwystro neu atal mynediad, mae gan y cyngor sir ddyletswydd i glirio'r ffordd. Gellir hysbysu'r cyngor sir o goed neu ganghennau ar draws HTC fel y nodir yn adran gyswllt y polisi hwn.

Gwrychoedd

Llinell o rywogaethau coediog a all gynnwys coed sy'n ffurfio ffin rhwng dau ddarn o dir yw gwrychoedd.

Ychydig iawn o wrychoedd sydd ym mherchnogaeth Cyngor Sir Fynwy. Fel rhan o ymrwymiad y sir i fioamrywiaeth a bod yn wenyn-gyfeillgar, mae'r cyngor sir yn ymdrechu i reoli'r rhain yn unol â'r Maniffesto Gwrychoedd:

<https://beefriendlymonmouthshire.files.wordpress.com/2017/05/bfmhedgerow-manifesto.pdf>

Mae mwyafrif yr ymholiadau i'r cyngor sir ynghylch gwrychoedd mewn perthynas â gwrychoedd ymyl ffordd. Mae mwyafrif y gwrychoedd ymyl ffordd a choed gweirglodd *heb fod ym mherchnogaeth* Cyngor Sir Fynwy ond ym mherchnogaeth y tiffeddiannwr cyfagos. Mae gan dirfeddianwyr gyfrifoldeb i gynnal eu gwrychoedd a'u hatal rhag effeithio ar ddefnydd diogel y briffordd gyhoeddus. Lle mae gwrychoedd ar ochr y ffordd yn union wrth ymyl y briffordd gyhoeddus (lle nad oes ymylon glaswellt), mae'r cyngor sir yn cyflawni toriad un metr o uchder i waelod y gwrych i gael gwared ar dwf blynyddol, waeth pwy yw ei berchennog. Cyfrifoldeb y tiffeddiannwr yw problemau sy'n codi gyda gwrychoedd ar ochr y ffordd sydd angen gwaith ychwanegol. Bydd adran briffyrdd y cyngor sir yn cyflwyno rhybuddion ar dirfeddianwyr lle tybir bod gwrychoedd yn effeithio ar ddiogelwch y briffordd.

Ac eithrio lle cwyd materion diogelwch arwyddocaol, yn ôl y gyfraith, dim ond y tu allan i'r tymor nythu adar y gellir torri gwrychoedd. Felly, torrir gwrychoedd fel arfer o ddiwedd yr haf.

Gweithdrefnau Cwyno

Bydd Cyngor Sir Fynwy'n ystyried cwynion mewn perthynas â'r modd mae wedi delio ag ymholiad, adroddiad neu gŵyn ynghylch coeden neu grŵp o goed neu wrych yn ei berchnogaeth. Ymdrinnir â chwynion yn unol â Pholisi Cwynion a Chanmoliaeth yr Awdurdod Cyfan.

[http://www.monmouthshire.gov.uk/app/uploads/2016/11/Polisi Cwynion a Chanmoliaeth yr Awdurdod Cyfan- Chwefror-2016-Fersiwn Terfynol pdf](http://www.monmouthshire.gov.uk/app/uploads/2016/11/Polisi_Cwynion_a_Chanmoliaeth_yr_Awdurdod_Cyfan_-_Chwefror-2016-Fersiwn_Terfynol.pdf)

Cysylltu â Chyngor Sir Fynwy ynghylch coed

Gall y Cyngor dderbyn ymholiadau ynghylch coed ac adroddiadau am goed peryglus drwy gyfrwng:

- Canolfan Alwadau: 01633 644644 neu contact@monmouthshire.gov.uk
- Rhowch wybod am broblem ar y wefan: <http://www.monmouthshire.gov.uk/>
- Ap Fy Sir Fynwy : <http://www.monmouthshire.gov.uk/my-monmouthshire>

1 – *Dull Synnwyr Cyffredin o Reoli Risgiau Coed* (2011) Grŵp Cenedlaethol Diogelwch Coed. ISBN 978-0-85538-840-9

Atodiad 1: Cwestiynau a Ofynnir yn Aml

Mae'r rhestr isod yn amlinellu natur y ceisiadau amlaf a wneir i Gyngor Sir Fynwy ynghylch tocio coed. Nid yw'r rhain yn hanfodol ac am y rheswm hwnnw ni roddir ystyriaeth i geisiadau am docio neu gwmpo coed.

Mae'n bwysig ailadrodd fod posibilrwydd i waith tocio roi cyfle i bathogenau gael mynediad drwy gyfrwng clwyfau. Gall tocio hefyd hybu aildyfiant egniol gan arwain at yr angen am reolaeth gylchol yn y dyfodol ar gost sylweddol a pharhaus. Felly, eir ati i docio yn unig pan fo hynny'n angenrheidiol.

A wnaiff y cyngor docio coed am resymau cosmetig, ymddangosiad neu uchder?

Nid yw hyn yn angenrheidiol, mae'n gostus a gallai effeithio'n andwyol ar iechyd tymor hir a chyfanrwydd strwythurol coed. Felly, nid yw Cyngor Sir Fynwy'n tocio coed am y rhesymau hyn.

A wnaiff y cyngor docio coed i wella golau / lleihau tywyllu?

Nid oes hawl statudol neu gyfraith gyffredin i olau yn berthnasol i goed yn y Deyrnas Unedig. Felly, ni fydd Cyngor Sir Fynwy'n cyflawni gwaith ar goed i ganiatáu golau naturiol neu leihau tywyllu mewn perthynas ag eiddo domestig. Fodd bynnag, lle mae'n bosib ystyried dwy neu fwy o goed bythwyrdd neu led-fythwyrdd mewn llinell yn wrych, gallai Rhan 8 o'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol fod yn berthnasol. Lle mae hyn yn wir, bydd y cyngor yn cyflawni asesiad ar sail hyn.

A wnaiff y cyngor docio coed i wella effeithioldeb paneli solar?

Mae'r ffaith nad oes hawl statudol neu gyfraith gyffredin i olau yn berthnasol i goed yn y Deyrnas Unedig hefyd yn effeithio ar ddefnydd paneli solar. Dylid cymryd i ystyriaeth fodolaeth y coed sydd yno ar hyn o bryd a'r effaith y gallent ei gael, yn y presennol a'r dyfodol, wrth ystyried gosod paneli solar ac ni fydd y Cyngor Sir yn tocio coed am y rheswm hwn.

A wnaiff y cyngor docio coed i wella effeithioldeb erialau teledu neu ddysglau lloeren?

Mae prynu trwydded deledu neu danysgrifiad i ddarparwr gwasanaeth fel Sky, yn rhoi'r hawl i'r prynwr weithredu'r offer sy'n derbyn unrhyw signal sydd ar gael. Fodd bynnag, nid oes hawl gyfreithiol i signalau teledu / lloeren yn y DU. Ni fydd Cyngor Sir Fynwy yn cyflawni gwaith coed mewn perthynas â cholli neu amharu ar signal. Dylid ceisio cyfarwyddyd gan y darparwr gwasanaeth mewn perthynas â negyddu materion yn ymwneud â derbyniad signal.

A wnaiff y cyngor docio coed sydd wedi tyfu ac sydd nawr yn andwyo fy ngolygfa?

Gan nad oes hawl i olygfa drawiadol heb ei hamharu gan goed yn y DU, ni fydd Cyngor Sir Fynwy'n cyflawni gwaith ar goed yn unig er mwyn gwella golygfeydd i neu o eiddo domestig neu fasnachol. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd lle gallai golygfeydd fod wedi bodoli'n flaenorol. Mae Cyngor Sir Fynwy'n cadw'r hawl i gael gwared ar ei goed ei hun lle gellir profi y bydd hyn er budd y tirlun *cyhoeddus* ac amwynder gweledol - er enghraifft, mewn perthynas â pharciau hanesyddol.

A wnaiff y cyngor docio coed fel y collant eu dail, eu ffrwythau a gadael malurion?

Mae malurion rhesymol megis dail, ffrwythau, cnau, blodau, gweddillion, mân goed marw, yn sgil-gynhyrchion prosesau bywyd y coed sy'n digwydd yn naturiol ac mae'n rhaid disgwyl hyn lle mae coed yn tyfu. Ni fydd Cyngor Sir Fynwy'n cyflawni gwaith ar goed mewn perthynas â negyddu materion o'r fath.

A wnaiff y cyngor docio coed i leihau'r niwsans a achosir gan adar a phryfed?

Mae carthion adar a phryfed, melwlith yn bennaf, sy'n gysylltiedig ag afidiaid, y tu hwnt i reolaeth Cyngor Sir Fynwy ac, felly, ni chyflawnir unrhyw waith ar goed i atal problemau o'r math hwn.

A wnaiff y cyngor docio coed am fod canghennau'n bargodi dros fy ffin?

Nid oes gan Gyngor Sir Fynwy ddyletswydd i docio canghennau sy'n bargodi ac eithrio lle maent mewn gwrthdaro uniongyrchol neu bosibl â strwythur adeiledig cyfagos. Mae gan berchennog neu feddiannydd tir cyfagos hawl o dan y gyfraith gyffredin i dorri nôl canghennau sy'n bargodi i'r ffin briodol. Fodd bynnag, dylid nodi hefyd bod gan unrhyw un sy'n tocio coed dan yr hawl hon ddyletswydd gofal i berchnogion y coed a dylid cymryd rhagofal rhesymol wrth weithredu'r hawl hon er mwyn sicrhau na pheryglir iechyd tymor hir a chyfanwaith strwythurol y coed. Mae unrhyw un sy'n dymuno gweithredu'i hawl dan y gyfraith gyffredin i dorri coed yn ôl i'w ffin lle mae Cyngor Sir Fynwy yn berchen ar y coed yn cael ei annog / hannog i gysylltu â'r cyngor sir. Mae hyn i sicrhau nad yw'r gwaith yn cyfaddawdu iechyd y goeden na thorri dynodiadau diogelu. At hynny, nid oes hawl awtomatig i wneud gwaith ar goeden o dir sy'n eiddo i'r cyngor. Lle mae angen mynediad, mae'n rhaid cysylltu â'r cyngor sir i gytuno mynediad cyn cyflawni unrhyw waith.

Dylai unrhyw waith rheoli coed a gyflawnir dan yr hawl hon lynu at y canlynol:

- Mae pob gwaith i'w gyflawni yn unol â BS 3998:2010 Gwaith ar Goed - Argymhellion
- Mae gwaith i'w gyflawni ar adeg nad yw'n gwrthdaro ag ymddangosiad neu gwmp y dail
- Mae pob gwaith i'w gyflawni yn unol â deddfwriaeth berthnasol yn ymwneud â bywyd gwyllt

- Mae unrhyw gcontractwr a gyflogir yn gymwys i wneud y gwaith ac wedi'i yswirio'n briodol
- Cytunir ar ddulliau gwaredu deunyddiau sy'n gysylltiedig â'r gwaith gyda'r cyngor sir rhag blaen ac mae'n rhaid iddynt fod mewn dull diogel ac ecogyfeillgar

A allaf i dalu am gael coed ym mherchnogaeth y cyngor wedi'u tocio?

Mae Cyngor Sir Fynwy'n gwerthfawrogi'r boblogaeth goed ar draws y sir gyfan a bydd yn eu rheoli'n briodol. Felly, ni fydd y cyngor yn ystyried ceisiadau gan unigolion i dalu am gael gwarded ar goeden neu goed sy'n eiddo i'r cyngor sir gan y byddai hyn yn ddiangen a byddai'n cael effaith negyddol ar yr amgylchedd lleol a'i gymuned.

Atodiad: Y meini prawf ar gyfer asesiadau diogelwch coed a gaiff eu hariannu'n breifat

Mae'n rhaid i'r syrfëwr fod yn gymwys i gyflawni arolwg i safon leiafsymiol BS-3998:2010.

Mae'n rhaid cofnodi'r canlynol:

- Cynllun arolwg coed gyda rhif cyfeirnod ar gyfer pob coeden neu grŵp
- Rhywogaethau wedi'u rhestru wrth eu henwau cyffredin
- Uchder cyfartalog y goeden/coed
- Diamedr boncyff y coed a fesurir yn unol â'r safon
- Rhychwant y canghennau ar y pedwar prif bwynt
- Yr uchder presennol uwchben lefel y ddaear ar y gangen gyntaf arwyddocaol a'r canopi
- Cyfnod mewn bywyd (e.e. ifanc, aeddfed, lled-aeddfed, aeddfedu'n gynnar, aeddfed, goraeddfed)
- Sylwadau cyffredinol, yn enwedig o gyflwr strwythurol a/neu gyflwr ffisiolegol
- Amcangyfrif o'r cyfraniad sy'n weddill mewn blynyddoedd (<10, 10+, 20+, 40+)
- Yr argymhellion rheoli cychwynnol
- Lluniau'n dangos y goeden gyfan ac unrhyw broblemau arwyddocaol wedi'u hamlygu

Mae'n rhaid i'r cyflenwr neu unrhyw isgcontractwyr sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaethau ddal a chadw'r yswiriant canlynol gyda chwmni yswiriant enwog:

Indemniad Proffesiynol, Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd Cyflogwr – ym mhob achos gyda'r lefel leiaf o indemniad wedi'i gosod ar filiwn o bunnoedd.